

Yn rhydd – i addoli

“Gollwng fy mhobl yn rhydd, er mwyn iddynt fy addoli yn yr anialwch.”
(adn. 16)

Beth am ddarlflen Exodus 7:14–24 ac yna myfyrio

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad y weinidogaeth bennaf oedd yn nodweddu'r eglwys yn Antiochia oedd ei gweinidogaeth i'r Arglwydd. Yr wyf am bwysleisio eto, wrth i aelodau'r eglwys yma addoli, bu iddynt ddarganfod ewyllys Duw ar eu cyfer.

Mae C. S. Lewis yn ei lyfr *Reflections on the Psalms* yn esbonio fel hyn: “Wrth iddo gael ei addoli, mae Duw yn cyfrannu ei bresenoldeb. O fewn Iddewiaeth, hanfod aberth oedd, nid yn gymaint fod dynion yn offrymu teirw a geifr i Dduw, ond bod Duw, wrth iddynt hwy offrymu, yn ei roi ei hun i ddynion. Wrth addoli, byddwn yn tybied yn aml mai y ni sydd yn rhoi a Duw sydd yn derbyn, ond mae yr un mor wir i ddweud mai Duw sydd yn rhoi ac yr ydym ni yn derbyn. Mae'r adnodau hynny o fewn yr Ysgrythur sy'n wahoddiad (hyd yn oed, yn orchymyn) gan Dduw i'w addoli, yno, nid oherwydd bod Duw yn dymuno ein haddoliad fel gwraig sydd eisiau rhyw ganmoliaeth, neu ryw awdur eisiau cael ei ganmol wrth gyflwyno llyfr, ond am fod Duw yn gorchymyn i ni i'w addoli oherwydd mae'n gwybod, wrth i ni agor drws ein calon i'w addoli, mae'n medru dod i mewn trwy'r union ddrws hwnnw, gan ein gwneud yn ymwybodol o'i bresenoldeb yn ein calonnau.”

Dywed un esboniwr fod yr eglwys yn Antiochia yn gwneud ei gwaith gorau wrth addoli Duw. Ond a yw'n bosibl disgrifio addoliad fel gwaith? Gellir sôn amdano fel dyletswydd, ond a yw hwn yn waith? Pan fo rhywun mewn cariad yn dweud wrth ei anwylyd ei bod yn brydferth, a ellir disgrifio hyn fel gwaith? Wrth edrych ar ddarlun ardderchog, neu edrych ar fachlud ardderchog, ai gwaith yw rhyfeddu at hyn? Rhoi gwrogaeth ddyledus i Dduw yw addoliad, mwynhau Duw, yn ôl yr hen ddiwinyddion. Mae'n amhosibl addoli Duw heb ei fwynhau.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

2 Cron. 5:11–14; 20:1–22; Iago 4:8

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd yn digwydd wrth i ni nesau at Dduw i'w addoli?
2. Sut mae addoli Duw?

Gweddi

O Dad, rwy'n cydnabod wrth i mi dy addoli, nid ti sy'n fy nerbyn i, ond y fi sy'n dy dderbyn di. Wrth addoli, rwy'n agor drws fy nghalon i nesau atat ti, ac rwyt ti yn barod i gerdded i mewn trwy'r drws yma. Diolch i ti, Iesu. Amen.